



Ein cyf: WQ85437, WQ85438, WQ85439

Rhun ap Iorwerth AS
Aelod Etholaethol y Senedd dros Ynys Môn

rhun.apiorwerth@senedd.wales

28 Mehefin 2022

Annwyl Rhun,

Diolch am eich Cwestiynau Ysgrifenedig diweddar am glefyd yr afu; rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau y dylai'r gofal gorau posibl fod ar gael i unrhyw un sydd â chlefyd yr afu.

Mae lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chlefyd yr afu yn hanfodol er mwyn osgoi oedi cyn ceisio cymorth, a phobl yn cael diagnosis hwyr. Dyna pam mae'r Grŵp Gweithredu ar Glefyd yr Afu (LDIG) wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afu Prydain i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chlefyd yr afu, drwy addysg a thrwy wella dealltwriaeth y cyhoedd o amrywiaeth eang o gyflyrau'r afu.

Yn ogystal, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yn rhoi cymorth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV o ganlyniad i driniaeth gan y GIG yng Nghymru gan ddefnyddio gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe. Gall unigolion sydd wedi'u cofrestru â WIBSS, aelodau o'u teulu ac aelodau o'u teuluoedd mewn profedigaeth gael mynediad at asesiad a thriniaeth seicolegol sy'n ymwneud â'r anawsterau emosïynol sy'n deillio o gael diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV ac o fyw gyda'r clefydau hynny. Bydd hyn yn cynnwys y stigma sy'n gysylltiedig â chlefydau'r afu. Y gobaith yw, drwy gynnig gwasanaeth seicolegol arbenigol, y bydd rhywfaint o gydnabyddiaeth a sylweddoliad o gymhlethdod corfforol a seicolegol y clefydau hyn a'r effaith ar ansawdd bywyd unigolion a'u perthynas ag eraill.

Rydym hefyd yn cydnabod y rôl sydd gan ofal sylfaenol i'w chwarae wrth roi diagnosis cynnar o glefyd yr afu. Mae LDIG yn awyddus i gynyddu nifer y clinigau FibroScan mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac yn bwriadu gweithio gyda'u haelod newydd sy'n gynghorydd meddygon teulu i ddatblygu gwaith peilot yn y maes hwn. Mae LDIG hefyd yn cydnabod manteision profion ffibrosis yr afu mewn gofal sylfaenol ar gyfer clefyd cronig yr afu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn disgwyl i'r GIG yng Nghymru ddarparu gofal yn unol â safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) sy'n argymhell cadw golwg ar gleifion â sirosis yr afu fel arfer drwy uwchsain bob chwe mis. Dylid cynnig hyn i bob claf o'r fath fel rhan o ofal clinigol arferol oni bai y byddai cyd-afiachedd (fel methiant yr afu neu glefydau cardio-anadlol difrifol) yn atal triniaeth weithredol i ganser yr afu sydd wedi'i ganfod.

Mae gordewdra yn effeithio ar amrywiaeth o glefydau cronig, sy'n cynyddu'r blynyddoedd o fyw ag anabledd ac yn effeithio ar ddisgwyliad oes cyffredinol. Mae bron i 2 o bob 3 oedolyn dros eu pwysau neu'n ordew ac mae 28% o'n plant eisoes dros eu pwysau neu'n ordew wrth ddechrau yn yr ysgol gynradd. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae gordewdra yn ei chael ar amrywiaeth o glefydau cronig gan gynnwys clefyd brasterog yr afu nad yw'n gysylltiedig ag alcohol a steatohepatitis nad yw'n gysylltiedig ag alcohol.

Mae ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn ymrwymiad allweddol tuag at ddull trawslywodraethol o leihau gordewdra yng Nghymru ar raddfa poblogaeth, ac fe'i datblygwyd ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull sy'n cyfuno newid ymddygiad unigolion â newid amgylcheddol a newid mewn systemau.

Mae'n sicr bod yr effeithiau ar ein hiechyd corfforol a meddyliol wedi'u teimlo ar draws cymunedau ledled Cymru. Gwyddom fod effaith niweidiol wedi bod ar ddewisiadau bwyd a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau lle'r oedd anghydraddoldebau iechyd yn bodoli eisoes.

Gobeitho bod hyn yn rhoi ichi'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services